

Colomen Colombia

Rhannu	Dysgu	Dathlu	Cefnogi
Compartir	Aprende	Celebrar	Apoyar
Sharing	Learning	Celebrating	Supporting

Seilir y cynnig ar lwyddiant ein taith perfformio ‘Canciones de los montañas/ Cân y mynyddoedd’ pan aeth pedwar cerddor a bardd o Gymru ar daith i ogledd Colombia ym mis Hydref 2019, a gefnogwyd yn rhannol gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Trwy’r fenter honno, cafwyd effaith rymus o ran datblygu cyfleoedd perfformio at y dyfodol, meithrin cysylltiadau rhyngweithiol rhwng pobl a chymunedau, a chynyddu ymwybyddiaeth yng Ngholombia o iaith a diwylliant Cymru. Mae’r cyffro a grëwyd yn parhau i ddatblygu goblygiadau newydd ac ychwanegol. Hefyd roedd yn hwyl aruthrol, ac arweiniodd at nifer o gysylltiadau cyfeillgar hynod werthfawr.

Llysgenhadon naturiol yw perfformwyr, fel y gwelwyd yr Hydref diwethaf. ‘Llysgenhadon y gair’ ydynt, ac maent yn rhannu’n naturiol, ac mae eu gallu celfyddydol, eu profiad a’u hyfforddiant yn golygu eu bod yn agored i ddeialog, rhyngweithio a datblygu cyfleoedd a chysylltiadau newydd. Mae hyn yn wir yn benodol am ymarferwyr celfyddydau traddodiadol, wedi eu trwytho yn eu diwylliant cynhenid, ac sy’n frwdfrydig i edmygu a dysgu o ddiwylliannau eraill. Mae pawb sy’n gysylltiedig â’r fenter newydd hon - boed o Gymru neu Golombia - wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo pob iaith a diwylliant cynhenid. Daw tri o gyfranogwyr Colombia o gymunedau ieithyddol brodorol, ac yn yr un modd ag yr ydym ni yma yng Nghymru’n ymhyfrydu mewn hyrwyddo ein diwylliant ar draws y byd a chymryd ein lle ar lwyfan y byd, maent yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau a deialog gyda ni yma, er mwyn cyfoethogi a helpu diogelu’r ieithoedd a chymdeithasau sydd mewn perygl yn eu gwlad nhw.

Trwy ‘Colomen Colombia’ bydd tri cherddor traddodiadol, dau ddawnsiwr traddodiadol, bardd a storiwr/gwneuthurwr ffilmiau dogfen o ogledd Colombia yn ymweld â Chymru rhwng 27^{ain} Gorffennaf a 6^{ed} Awst 2020. Tra byddan nhw yma, byddant yn ymarfer ar gyfer ac yn perfformio strafagansa aml-gyfrwng, aml-gelf ac aml-iaith, trwy weithio gyda cherddorion a beirdd o Gymru, o flaen cynulleidfaoedd ar draws y genedl, yn ogystal â chynnig gweithdai, sgrinio’r ffilm ynghyd â chyflwyniadau a thrafodaethau. Byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o’r cyfleoedd a geir trwy ryngweithio wyneb yn wyneb a thrwy’r cyfryngau. Ar y cyd â’r gerddoriaeth, y dawnsio a’r farddoniaeth, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau i feithrin cefnogaeth y naill i’r llall rhwng y Gymraeg ac ieithoedd brodorol Colombia yn ystod y daith. Uchafbwynt y daith fydd rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau a seilir o gwmpas Eisteddfod Genedlaethol Cymru, fydd yn cael ei chynnal yn Nhregaron. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gallu ategu’r cysylltiadau rhwng cymunedau, asiantaethau hyrwyddo’r iaith a’r artistiaid a’r hyrwyddwyr mae’r perfformwyr wedi bod yn gweithio gyda nhw. A thrwy hynny datblygu ac ehangu’r potensial cychwynnol a ddarganfuwyd y llynedd. Byddant yn treulio’r diwrnod olaf yng Nghaerdydd, yn gweithio gyda phobl ifanc wedi’u dadleoli sy’n hanu o Somalia, Syria a gwledydd eraill, er mwyn paratoi sioe impromptu, fydd yn cael ei pherfformio’r noson honno ar lwyfan Canolfan y Mileniwm. Yn ystod y daith, bydd y tîm o Gymru/dinasyddion Colombia hefyd yn hau hadau rhaglen greadigol gydweithredol hirdymor rhwng pobl ifanc y ddau ddiwylliant.

Er y bydd y perfformwyr yn anelu at greu cyffro, rhagoriaeth artistig ac effaith cynulleidfa lawn yn yr holl sioeau, byddant yr un mor benderfynol i ymgysylltu â chymunedau ar bob lefel, a chynnig gweithdai drymio a dawns i bobl ifanc ac eraill, sesiynau jamio a rhannu syniadau gyda pherfformwyr eraill beth bynnag fo lefel eu harbenigedd, dangos ffilmiau dogfen er mwyn ysgogi trafodaeth, a thrwy hyn oll, dathlu manau cyffredin a chyffelybiaethau rhwng diwylliant gwerin Colombia a Chymru. Tu allan i’r amseroedd

perfformio, byddant hefyd yn rhoi amser i ddatblygu cysylltiadau cyfeillgar, a darganfod cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau pellach ac i ysgogi rhyngweithio mewn meysydd amrywiol. Yn ogystal hefyd, â chael - a rhannu'r - hwyl.

Mae'r daith eisoes yn denu cefnogaeth eang, a chynigion o nawdd. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi bod yn rhagweithiol ac yn hynod bositif. Ac mae partneriaethau hefyd ar y gweill gyda'r Cylchgrawn Planet, Braich Goch, Menter Maldwyn a Theatr Felinfach. Mae'r cynlluniau ar gyfer y daith yn syrthio i'w lle, fel y gwelir isod:

Dyddiad	Lleoliad	Gweithgareddau
Dydd Llun 27/7	Tŷ-Siamas, Dolgellau	Ymarfer – diwrnod llawn
Dydd Mawrth 28/7	Tŷ-Siamas, Dolgellau Y Tabernacl, Machynlleth	Ymarfer – diwrnod llawn Cyngerdd
Dydd Mercher 29/7	Yr Ysgwrn, Trawsfynydd	Lansiad y cyfryngau, gweithdai, cyngerdd
Dydd Iau 30/7	Galeri, Caernarfon	Gweithdy a Chyngerdd
Dydd Gwener 31/7	Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth	Cyngerdd
Dydd Sadwrn 1/8	Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog	Gweithdy a chyngerdd
Dydd Sul 2/8	Braich Goch, Corris	Gweithdai a chyngerdd anffurfiol
Dydd Llun 3/8	Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Tregaron	Perfformiad, gweithdai, cyfarfodydd
Dydd Mawrth 4/8	Theatr Felinfach, Tregaron	Cyngerdd
Dydd Mercher 5/8	Canolfan y Mileniwm, Caerdydd	Gweithdai a chyngerdd anffurfiol

Cyflwyniadau a thrafodaethau ar faterion cymunedol, diwylliannol ac ar thema iaith

Dydd Iau 30/7, 11am	Galeri, Caernarfon
Dydd Sul 2/8, 2pm	Braich Goch, Corris
Dydd Mawrth 4/8, amser i'w gadarnhau	Eisteddfod Genedlaethol, Tregaron

Mae'r digwyddiadau mewn print llwyd eto i'w cadarnhau.

Bu pedwar o griw Colombia'n gweithio gyda'r ymwelwyr o Gymru yn ystod yr Hydref y llynedd. Bydd y criw cyfan yn cynnwys:

Camilo Andrés Hernández Orduz (Offerynnwr a chanwr)

Diego Mauricio Téllez (Offerynnwr a chanwr)

Juan Sebastián Peña (Offerynnwr a chanwr)

Deiby Julián Afanador (Offerynnwr a dawnsiwr)

Karina Archila (Dawnsiwr)

Mateo Santero Peña (Bardd perfformio)

Heidi van Grieken (Storiwr, gwneuthurwr ffilm, sy'n gweithredu dros yr iaith Wayuu).

Gan fod canol yr haf yn amser prysur iawn i berfformwyr yng Nghymru, ni fyddai'n realistig disgwyl i'r un cerddorion a dawnswyr berfformio bob noson ar y daith. Felly byddwn yn creu cronfa fach, ryngweithiol o berfformwyr o Gymru, fydd yn gallu cymryd rhan yn y prosiect, er mwyn cefnogi a chymryd lle ei gilydd, yn ôl trefniadau eraill sydd ganddynt eisoes. Bydd y tîm yn cynnwys y tri aeth ar daith i Golombia (Osian Morris, Gwilym Bowen Rhys ac Iestyn Tyne) gyda chefnogaeth y drymiwr Cymreig o Golombia Javier Sanches Rodriguez fu'n teithio gyda nhw; hefyd bydd Tegid Rhys Roberts, Pixie Tom a Nicolas Davalan aelodau'r band 'Tacla', Cerys Havana a Gwenan Gibbard yn cymryd rhan.

Bydd yn her trefnu a chynllunio perfformiadau mor gymhleth â hyn, a bydd yn golygu gofynion o safbwynt y lleoliadau yn ogystal â'r perfformwyr. Ein gobaith yw rhannu'r sioe mewn lleoliadau cymunedol bach yn ogystal â rhai mwy, ac felly bydd angen addasu'r cynnwys, heb gollu'r cyffro neu'r effaith. Rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda'r lleoliadau dan sylw, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Dwynwen Lloyd Llywelyn o Theatr Felinfach, sydd wedi cynnig ei phrofiad ym maes llwyfannu a choreograffi i'n cynorthwyo.

Y Tîm sy'n gweithio ar ddatblygu'r prosiect ar hyn o bryd yw:

Alex Burnham – gwybodaeth ddigidol a hyrwyddo

Dwynwen Lloyd Llywelyn (Theatr Felinfach) – llwyfannu a chyfarwyddo

Ethel Marie Cure – cyfieithu a chyfathrebu

Javier Sanchez Rodriguez (Braich Goch) – lleoli a logisteg

Liz Fenwick (Glasbrint) - dylunio a chyhoedduswydd

Marion Burnham - gwerthuso

Meic Llewellyn - datblygu'r prosiect yng Nghymru

Osian Morris – datblygu'r prosiect yng Nghymru

Robin Llewellyn – datblygu'r prosiect yng Ngholombia